Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol (BASW) Cymru

# Adroddiad Cryno

## Hiliaeth mewn Gwaith Cymdeithasol: O Eiriau i Weithredu

Mai 2022



BASW Cymru

Y gymdeithas i waith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol

Gweledigaeth pum mlynedd BASW DU o 2020 - 2025 yw

***"Bydd gwaith cymdeithasol yn broffesiwn ffyniannus, dylanwadol, uchel ei barch, yn gwella bywydau ac yn cynnal hawliau pobl ledled y DU."***

Mae ein cenhadaeth yn egluro beth rydym yn ei wneud, pam rydym yn ei wneud ac ar gyfer pwy:

Mae BASW yn gweithredu ar gyfer:

| | |
|---|---|
| **Gweithwyr cymdeithasol** : | Yn cefnogi, amddiffyn ac ysbrydoli gweithwyr cymdeithasol ym mhob rôl, a'r cenedlaethau nesaf o weithwyr proffesiynol. |
| **Gwaith cymdeithasol**: | Datblygu moeseg, ymarfer, gwybodaeth, ymchwil a dysgu proffesiynol. |
| **Cymdeithas well**: | Siarad dros waith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol ar gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, tlodi, hawliau dynol, gormes, a materion cymdeithasol hanfodol eraill yn y DU ac yn rhyngwladol. |

Mae BASW Cymru yn rhan o BASW DU a hwn yw'r sefydliad aelodaeth broffesiynol dros waith cymdeithasol. Ni yw llais annibynnol gwaith cymdeithasol sy'n hyrwyddo gwaith cymdeithasol ac yn helpu aelodau i gyflawni'r safonau proffesiynol uchaf.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn dwyn ynghyd ganfyddiadau ein harolwg 'Hiliaeth mewn Gwaith Cymdeithasol', a gynhaliwyd ledled Cymru'r llynedd. Datblygwyd yr arolwg gan Grŵp Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Gwrth-hiliol BASW Cymru ac roedd yn agored i fyfyrwyr, ymarferwyr, rheolwyr ac addysgwyr. Ei nod oedd archwilio pa mor gyffredin oedd hiliaeth ar draws proffesiwn gwaith cymdeithasol.

Rydym wedi archwilio'r data a oedd yn rhoi mewnwelediadau hanfodol ac yn ei gyflwyno nawr fel y gallwn ddefnyddio'r cynnwys i gael trafodaeth adeiladol bellach am newid effeithiol o fewn y sector gwaith cymdeithasol ar draws Cymru.

# Ffactorau allweddol i'w hystyried:

## Terminoleg

Nid yw pobl sy'n profi hiliaeth yn grŵp homogenaidd. Fel y cyfryw nid oes un gair nac ymadrodd i'w disgrifio. Yn union fel nad yw 'gwyn' yn disgrifio'n ddigonol y myrdd o amrywiadau o ran tarddiad a chefndir pobl a allai gael eu gwahaniaethu ar sail hil, felly hefyd y termau a ddefnyddir yn aml fel 'B.A.M.E' neu 'bobl o liw'. Mae'r acronym B.A.M.E yn derm ymbarél dadleuol a ddefnyddir i ddisgrifio pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig eraill, gan gynnwys y rheini o gymunedau Sipsiwn, Roma, Teithwyr (GRT) ac Iddewig. At ddibenion yr adroddiad hwn, byddwn yn defnyddio 'lleiafrifoedd ethnig' i gyfeirio at bob grŵp ethnig ac eithrio'r grŵp gwyn Prydeinig. Am drafodaeth fanwl am iaith a thermau, gweler Writing about ethnicity - GOV.UK (ethnicity-facts-figures.service.gov.uk).

## Ymdeimlad o berthyn

Mae yna gorff cynyddol o ysgrifau am hiliaeth mewn gwaith cymdeithasol, ac fe fynnir cael newid.[1] Mae themâu wedi dod i'r amlwg, sy'n cynnwys diffyg amrywiaeth ymhlith gweithwyr cymdeithasol, yn arbennig o amlwg mewn swyddi rheoli uwch.[2] Mae gan hyn oblygiadau ar y ffordd y mae gweithwyr cymdeithasol o gefndiroedd gwahanol yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y proffesiwn. "Os na allwch chi weld eich hun yn cael ei adlewyrchu yn y proffesiwn, beth mae hynny'n ei olygu i'ch hyder a'ch ymdeimlad o berthyn ....... Pan ddywedwn ein bod wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth, sut mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr hyn (a phwy) sy'n weladwy yn y proffesiwn?" Reid & Maclean (2021)

## Croestorri

""Croestorri yw natur rhyng-gysylltiedig o gategorïau cymdeithasol fel y maent yn berthnasol i unigolyn neu grŵp penodol. Dyma o le mae pŵer yn dod ac yn gwrthdaro, lle mae'n cyd-gloi ac yn croestorri."[3]

Gall gweithwyr cymdeithasol, fel pob aelod o gymdeithas sy'n profi hiliaeth, hefyd wynebu gwahaniaethu neu orthrwm oherwydd nodweddion gwarchodedig eraill. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, rhyw, crefydd, statws priodasol, rhywioldeb ac anabledd. Gall mathau lluosog o anfantais waethygu ac effeithio ar brofiadau gweithiwr cymdeithasol yn y gweithle. Oherwydd hyn, rhaid inni gymhwyso lens groestoriad mewn unrhyw waith a wnawn i herio hiliaeth.

## Cyfyngiadau data

Mae'r data yn yr adroddiad cryno hwn yn giplun o gyfnod penodol mewn amser. Rydym yn cydnabod bod llawer mwy am hiliaeth na chynhwyswyd yn yr adroddiad cryno hwn sydd yr un mor berthnasol. Gobeithiwn archwilio'r rhain yn ein digwyddiad bord gron gwrth-hiliaeth yn y dyfodol.

# Canfyddiadau'r Arolwg

**25% yn unig o'r rhai a ymatebodd oedd yn teimlo bod cyflogwyr ac addysgwyr gwaith cymdeithasol yn ymwybodol o freintiau pobl gwyn, rhagfarn anymwybodol a hiliaeth o fewn sefydliadau a diwylliannau Cymru.**

Ychwanegwyd sylwadau pellach gan y rhai a ymatebodd:

*'Yn ymwybodol  ar lefel arwynebol ar y gorau, ddim eisiau cydnabod'.*

*'Mae'n debyg na allaf ddychmygu unrhyw ffordd drwy'r flwyddyn ddiwethaf heb iddynt fod yn ymwybodol'.*

*'Ymwybyddiaeth yna ...gweithredu os na'. 'Ond dim cydnabyddiaeth. Wedi'i frwsio o dan y carped'.*

**Dim ond 13% oedd yn teimlo bod gwerthoedd gwrth-hiliol yn cael eu pwysleisio. Teimlai 25% eu bod 'weithiau'. Teimlai gweddill yr ymatebwyr nad oedd gwerthoedd gwrth-hiliol yn cael eu pwysleisio.**

Rhannwyd y sylwadau canlynol:

*'Dim ond sylw brysiog a roddir i wrth-hiliaeth. Mae diffyg amrywiaeth yn y gweithlu a'r arweinyddiaeth.  Diffyg strwythur i wreiddio, gorfodi, dal yn atebol'.*

*'Rwy'n meddwl, lle eir i'r afael ag arfer gormesol, ei fod yn cael ei gynnwys mewn ADP neu AOP, yn hytrach na nodi hiliaeth'.*

*'Cafodd gwrth-hiliaeth ei wthio i lawr y rhestr o flaenoriaethau wrth i bwysau ar gyflogwyr a sefydliadau addysgol i gyflawni 'mwy â llai' ddwysáu gyda chaledi ac effaith Covid'.*

**Dywedodd 88% o'r rhai a ymatebodd bod hwy eu hunain neu eu cydweithwyr / cyfoedion wedi cael profiad o hiliaeth neu ragfarn yn y gwaith neu mewn lleoliad ymarfer. Ni dderbyniodd 38% o'r rhai a ymatebodd, unrhyw gefnogaeth pan wnaethant adrodd am ddigwyddiadau hiliol neu ragfarnllyd.**

Ychwanegodd y rhai a ymatebodd sylwadau pellach am rai o'u profiadau o hiliaeth:

*'Yn y gwaith, ymhlyg ac yn uniongyrchol gan gydweithwyr ar bob lefel. Mewn addysg, oherwydd absenoldeb llwyr o addysgu ac addysg mewn hiliaeth wrth Sipsiwn, Teithwyr, Roma. O ddod i gysylltiad â safbwyntiau hiliol y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol.'*

*'Ie. Mae tôn siarad yn ymwthgar iawn mewn cyfarfodydd. Pigo ar eiriau'.*

*'Pan ar leoliad, rhoddwyd cardiau adnabod i ni ond er bod fy nghydweithwyr gwyn wedi cael cardiau adnabod dwy flynedd o hyd, cefais lai na'r cyfnod lleoliad ac ni chafodd fy nghwyn ei ystyried'.*

*'Nifer fawr o ffyrdd. Pobl yn lleihau'r profiad o POC ayb. Llai o enghreifftiau amlwg gan nad yw pobl bellach yn defnyddio iaith neu weithredoedd hiliol mor amlwg.'*

*'Gorfeirniadol. Yn tanseilio'.*

*'Fy mhrofiad olaf o hiliaeth amlwg yn y gweithle oedd bod sylwadau am fewnfudwyr yn cymryd drosodd a bod memes hiliol yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n hawdd tynnu sylw at y rhain ac, ar y cyfan, cymerwyd camau, er na chafodd y troseddwyr eu cosbi – dosbarthwyd e-bost yn dweud nad yw rhannu cyfryngau a negeseuon e-bost o'r fath yn dderbyniol ond y tu hwnt i hynny, dim byd. Sut ydych chi'n egluro neu'n tynnu sylw at y myrdd o sarhadau, diffyg dyrchafiad, mynediad at yr un cyfleoedd neu'r un gefnogaeth â'ch cydweithwyr gwyn? Mae'r pethau hyn yn digwydd yn hynod gyson ond mae 'profi' ei fod yn hiliaeth bron yn amhosib ac mae uwch reolwr wedi dweud wrthyf yn y gorffennol i beidio â chwarae'r 'cerdyn hiliaeth', felly mae'n parhau i fod yn anodd iawn.'*

**Roedd 75% o'r rhai a ymatebodd i ni o'r farn bod angen gwneud mwy i greu ac i gynnal lleoliadau gweithle ac addysgol mwy cyfartal, amrywiol a chynhwysol.**

Rhannodd y rhai a ymatebodd eu sylwadau isod:

*'Pe bai Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Cymru yn cael ei weithredu mewn gwirionedd, byddem yn gweld gwir newid.'*

*'Ie. Enwi a chywilyddio. Arweinyddiaeth gref ar y brig.'*

*'Gan ddechrau trwy gydnabod bod hiliaeth yn bodoli ac yna amlinellu camau clir y gellir eu cymryd i fynd i'r afael a hyn, heb droi'n siop siarad arall.'*

*'Mae'r dyddiau cynlluniau, strategaethau, addewidion a datganiadau cefnogol wedi hen fynd. Mae'r problemau'n hysbys iawn, mae'r data yna. Mae angen gweithredu*

*'Cafodd llawer ei ddweud dros y blynyddoedd ac fe gyhoeddwyd deddfwriaeth.  Geiriau heb weithred. Mae pobl yn ymuno â'r grŵp i ddringo'r ysgol er eu budd personol eu hunain.'*

## Daw ein canfyddiadau i'r casgliad:

- Mae hiliaeth yn bodoli o fewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru; mae'n digwydd mewn lleoliadau cyflogaeth ac addysgol ac mae'n cael ei brofi gan ymarferwyr, rheolwyr a'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau.
- Nid yw breintiau pobl gwyn a syniadau eraill am fod yn wyn yn cael eu trafod mewn sefydliadau a diwylliannau Cymreig.
- Nid yw gwerthoedd gwrth-hiliaeth bob amser yn cael eu hybu yng Nghymru.
- Mae yna dystiolaeth o effaith emosiynol, seicolegol a chorfforol sylweddol hiliaeth ar weithwyr cymdeithasol o leiafrifoedd ethnig ledled Cymru.
- Nid yw hiliaeth yn cael ei thrin mewn modd tryloyw na chadarn pan gaiff ei hadrodd i'r arweinwyr.
- Mae yna ddiffyg cydnabyddiaeth, addysg ac ymwybyddiaeth o hiliaeth o fewn gwaith cymdeithasol.
- Rhaid gwneud mwy o waith i greu a chynnal gwaith a mannau addysgol teg, amrywiol a chynhwysol.

Rhaid i BASW Cymru barhau i arwain y gwaith o fodelu gwrth-hiliaeth i'r proffesiwn ehangach.

Rhaid i waith cymdeithasol fod yn broffesiwn sy'n croesawu pobl o bob cefndir, ac sydd â strwythurau clir a theg i hybu cynhwysedd a chydraddoldeb. Mae Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Gweithwyr a Chyflogwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi bod unrhyw fath o wahaniaethu yn annerbyniol ac na ddylai gweithwyr na chyflogwyr ei goddef.[4]

Gwyddom nad oes lle i hiliaeth, a'r trawma y mae'n ei achosi, mewn gwaith cymdeithasol. Rhaid inni greu mannau heriol a diogel ar gyfer sgyrsiau am hiliaeth ym mhob lleoliad.

Rhaid inni gyd-greu â'n gweithluoedd a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Mae deall pam a ble mae hiliaeth yn bodoli yn angenrheidiol i newid y sefyllfa.

Rhaid i hyfforddiant gwaith cymdeithasol fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r llu o gefndiroedd y mae myfyrwyr yn dod ohonynt, hanes gwladychiaeth a hiliaeth yn ein cymdeithas, sut mae haenau gwahanol o ormes yn croestorri, a sut mae'r rhain yn effeithio ar weithwyr cymdeithasol eu hunain ac ar y rhai yr ydym yn eu cefnogi. Ni ddylid disgwyl i weithwyr cymdeithasol o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ddatrys hiliaeth, gwaharddiad neu wahaniaethu ar eu pen eu hunain.

Fel y Gymdeithas Broffesiynol, bydd BASW Cymru yn parhau i wrando ar, a chefnogi, pobl sydd â phrofiad o fyw gyda hiliaeth ac yn gweithio tuag at addysgu ac arfogi pob un ohonom i ddileu hiliaeth. Byddwn yn cefnogi pobl gwyn i ddod yn gynghreiriaid go iawn ac i hyrwyddo a chryfhau gwrth-hiliaeth ar draws pob lleoliad gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

- Mae BASW Cymru yn derbyn bod gwerthoedd gwaith cymdeithasol yn cael eu tanseilio'n gyson gyda'r testun hiliaeth yn y gweithle a lleoliadau addysgol.

- Ein nod yw gweithio gyda'n haelodau, rhanddeiliaid gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad  byw i ailsefydlu'r gwerthoedd gwaith cymdeithasol hynny a'u cryfhau o fewn y sector gwaith cymdeithasol ledled Cymru.

- Rydym yn cydnabod yr angen allweddol am hyfforddiant effeithiol ar wrth-hiliaeth ar draws sector gwaith cymdeithasol, yn cynnwys ymgorffori hyn yn y cwricwlwm gwaith cymdeithasol.

- Mae BASW Cymru yn annog ac yn hybu arweinyddiaeth a chydweithio amrywiol gyda'r rhai sydd â phrofiad byw o ddefnyddio gwasanaethau gwaith cymdeithasol.

- Rydym am weld gwrth-hiliaeth i fod yn nodwedd barhaus sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac nid digwyddiadau hyfforddiant 'unwaith ac am byth'.

- Mae BASW Cymru yn galw am i arweinyddiaeth fod yn amrywiol. I ddeall ac i gynrychioli'r bobl y maent yn gweithio gyda hwy ac yn eu gwasanaethu.

- Rydym yn galw am fecanweithiau cefnogol diogel a chadarn i adrodd am hiliaeth ac arfer gormesol o'r fath. Rydym yn galw am brosesau a chamau gweithredu clir ac i fabwysiadu dull goddefgarwch sero ar draws Cymru.

- Gobeithiwn gynnal bord gron yn fuan iawn i drafod y canfyddiadau hyn ymhellach a thrafod sut y gallwn gefnogi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Darganfyddwch pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru a Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cymryd https://gov.wales/anti-racist-wales-action-plan
I gael rhagor o wybodaeth am y camau y bydd Llywodraeth Cymru a Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cymryd, ewch i https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-cymru-wrth-hiliol

# Cyfeiriadau ac Adnoddau

Black, Asian and minority ethnic community resources'. Casgliad o ddeunydd darllen, canllawiau ac adnoddau defnyddiol ar wefan BASW DU. www.basw.co.uk/black-asian-andminority-ethnic-community-resources

Let's Talk Social Work – Challenging the last acceptable form of racism. https://shows.acast.com/6144b6e69096e200123fb4d8/episodes/6144b6ed2b4d4600124303dc

'Black, Asian and Minority Ethnic Student Attainment at UK Universities: #CLOSING THE GAP. Adroddiad gan Brifysgolion y DU ac Undeb by Universities UK and National Union of Students, Mai 2019. www.universitiesuk.ac.uk/policy-andanalysis/reports/Documents/2019/bamestudent-attainment-uk-universities-closing-the -gap.pdf

D. Allen, V. Hamnett (2022). Gypsy, Roma and Traveller children in child welfare services in England. *The British Journal of Social Work.* 00, pp.1-19

D. Allen, A. Hulmes (2021). Aversive Racism and Child Protection Practice with Gypsy, Roma and Traveller Children and Families. *Seen and Heard.* 31(2)

D. Allen, S. Riding (2018). *The Fragility of Professional Competence: A Preliminary Account of Child Protection Practice with Romani and Traveller Children.* Eurpoan Roma Rights Centre, Eurpoan Roma Rights Centre (ERRC).

D. Allen (2016). 'It's in their Culture': Working with automatic prejudice towards Gypsies, Roma and Travellers during care proceedings. *Seen and Heard.* 26(2), pp.40-52.

The GRTSB Pledge into Higher Education www.bucks.ac.uk/about-us/what-we-stand/gtrsb-higher-education-pledge

Dacosta, Dixon & Singh (2021) 'Beyond BAME: Rethinking the politics, construction, application, and efficacy of ethnic categorisation.' Higher Education Research Action Group (HERAG). https://drive.google.com/file/d/1jb0k6kk1jv0jIC 8ldePJatAcKNL1vrsU/view

Let's Talk Social Work Podcast 'Anti-Racism'. BASW UK. Listen at:
Apple:
https://podcasts.apple.com/gb/podcast/antiracism/id1511140451?i=1000523288660
Spotify:
https://open.spotify.com/episode/4p2ozyBNNF 9QBQXyQ2Pg9n

Moore, T. & Simango, G. (2021) The Anti-Racist Social Worker: Stories of Activism by Social Care and Allied Health Professionals. Critical Publishing.

Professional Social Work Magazine, 28 October 2020 'It's not normal to be a black academic' www.basw.co.uk/resources/psw-magazine/pswonline/it%E2%80%99s-not-normal-be-blackacademic

Reid, W & Maclean, S (eds) (2021) Outlanders: hidden narratives from social workers of colour. Kirwin Maclean.

White, N (2014) 'It is not on the macro level but the micro level that racism is defeated' Article in Community Care, December 10, 2014. www.communitycare.co.uk/2014/12/10/macro-level-racism-defeated

---

[1] www.basw.co.uk/resources/psw-magazine/psw-online/anti-racism-social-work-struggle-real-and-you-are-part-it
[2] www.communitycare.co.uk/2021/10/20/senior-leadership-buy-in-critical-to-anti-racism-in-social-work-say-experts/
[3] www.communitycare.co.uk/2021/10/20/senior-leadership-buy-in-critical-to-anti-racism-in-social-work-say-experts/
[4] Codes of Practice and guidance | Social Care Wales

Cyhoeddwyd gan BASW Cymru, Mehefin 2022

**Dyfynnir fel:** Adroddiad Cryno BASW Cymru (2022) ***Hiliaeth mewn Gwaith Cymdeithasol: O Eiriau i Weithredu.*** Caerdydd: BASW Cymru.

Mae croeso i ddefnyddwyr ddyfynnu o'r ddogfen hon cyn belled â bod y ffynhonnell yn cael ei ddyfynnu'n gywir fel y dangosir uchod. Gwaherddir unrhyw ddyfyniadau na chawsant eu priodoli dan warchodaeth hawlfraint.

**www.basw.co.uk/wales**